

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A44
(Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr,
Ceredigion) (Gwahardd Aros) 202-

The A44 Trunk Road (Quebec
Road, Llanbadarn Fawr,
Ceredigion) (Prohibition of
Waiting) Order 202-

Gwnaed 202-
Yn dod i rym 202-

Made 202-
Coming into force 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A44, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A44 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Gwahardd Aros) 202- a daw i rym ar ***** 202-.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A44 Trunk Road (Quebec Road, Llanbadarn Fawr, Ceredigion) (Prohibition of Waiting) Order 202- and it comes into force on ***** 202-.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A44 y Drenewydd i Aberystwyth.

2. In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A44 Newtown to Aberystwyth Trunk Road.

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochr ddwyreiniol y darn o'r gefnffordd o'r enw Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr, Ceredigion sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Chilgant Padarn hyd at bwynt 44 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Prohibition of waiting at any time

3. Except as provided in article 4 of this Order, no person may cause or permit any vehicle to wait at any time on the eastern side of the length of the trunk road known as Quebec Road, Llanbadarn Fawr, Ceredigion that extends from the centre-point of its junction with Padarn Crescent to a point 44 metres north-west of that junction.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Esempiadau

4. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:
 - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
 - (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
 - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r gefnffordd; neu
 - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darn o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(2);
- (d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;
- (e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;
- (f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu
- (g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:
 - (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
 - (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
 - (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
 - (iv) pan fo'n gweithredu ar gyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

Exemptions

4. A person may cause or permit any vehicle to wait on the side of the length of the trunk road specified in article 3 of this Order for so long as may be necessary to enable—

- (a) a person to board or alight from a vehicle;
- (b) goods to be loaded on or unloaded from a vehicle;
- (c) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other length of road, to be used in connection with any of the following operations:
 - (i) building, industrial or demolition operations;
 - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
 - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the length of the trunk road; or
 - (iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the length of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(2);
- (d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;
- (e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the length of the trunk road;
- (f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or
- (g) the vehicle to stop when the person in control of it:
 - (i) is required by law to stop;
 - (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
 - (iii) is prevented from proceeding; or
 - (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,
Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig

202-

Signed under authority of the Minister for Economy,
Transport and North Wales, one of the Welsh
Ministers.

Dated

202-

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44
(FFORDD QUEBEC, LLANBADARN FAWR,
CEREDIGION) (GWAHARDD AROS) 202-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Ystyrir bod angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwahardd aros ar ddarn o gefnffordd yr A44 yn Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

Diben y Gorchymyn arfaethedig yw gwahardd aros ar ddarn o gefnffordd yr A44 er mwyn sicrhau bod gwelededd digonol tuag ymlaen ar gyfer y groesfan sebra arfaethedig i gerddwyr sydd i'w gosod yn gyfagos i ddelwriaeth geir Anthony Motors, Llanbadarn Fawr.

Bydd y cynigion yn gwella diogelwch ar y ffordd i gerddwyr a defnyddwyr y ffordd a byddant hefyd o fudd wrth fynd allan o gyffyrdd yr is-ffyrdd ymyl yng nghyffiniau'r groesfan newydd.

**THE A44 TRUNK ROAD (QUEBEC ROAD,
LLANBADARN FAWR, CEREDIGION)
(PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is considered necessary for the prohibition of waiting along a length of the A44 trunk road at Llanbadarn Fawr, Ceredigion.

The purpose of the proposed Order is to prohibit waiting along a length of the A44 trunk road to ensure that there is adequate forward visibility for the proposed pedestrian zebra crossing facility to be installed adjacent to Anthony Motors car dealership, Llanbadarn Fawr.

The proposals will improve road safety for pedestrians and road users and will also benefit egress from the minor side road junctions in the vicinity of the new crossing.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44
(FFORDD QUEBEC, LLANBADARN FAWR,
CEREDIGION) (GWAHARDD AROS) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochr ddwyreiniol y darn o gefnffordd yr A44 o'r enw Ffordd Quebec, Llanbadarn Fawr, Ceredigion sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â Chilgant Padarn hyd at bwynt 44 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 25 Mawrth 2020 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1407491.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 15 Ebrill 2020, a hynny drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1407491. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd partïon, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd partïon priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**THE A44 TRUNK ROAD (QUEBEC ROAD,
LLANBADARN FAWR, CEREDIGION)
(PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit waiting at any time on the eastern side of the length of the A44 trunk road known as Quebec Road, Llanbadarn Fawr, Ceredigion that extends from the centre-point of its junction with Padarn Crescent to a point 44 metres north-west of that junction.

During a period of 21 days from 25 March 2020, a copy of the proposed Order, plan and a Statement of Reasons for making the Order may be inspected during normal opening hours at Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1407491.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference qA1407491, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by e-mail to Transport.OrdersBranch@gov.wales by 15 April 2020. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government